**Renewable Energy Systems Limited**
Cedar House, Greenwood Close, Cardiff Gate Business Park
Cardiff CF23 8RD, United Kingdom
E info@res-group.com **www.res-group.com**

Mr James Dawkins
Rheolwr Achosion Cynllunio
Yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol
1 Victoria Street
London
SW1 0ET

Ein Cyf: 01592-1485332

2 Medi 2020

Annwyl Mr Dawkins,

**Ailbenderfynu Fferm Wynt ar y Tir yn Llanbrynmair – Cais am Ragor o Wybodaeth yn sgil Tynnu Cais Fferm Wynt ar y Tir yng Ngharnedd Wen yn ôl**

Diolch i chi am eich llythyr dyddiedig 25 Awst 2020 yn gofyn am wybodaeth ynghylch a yw tynnu cais Fferm Wynt ar y Tir yng Ngharnedd Wen yn ôl wedi arwain at unrhyw newidiadau yng Nghais Fferm Wynt Llanbrynmair fel y gwnaed cais amdano'n flaenorol, megis y cynnig i rannu llwybr Llwyth Unigol Annormal (AIL) gyda Charnedd Wen.

Roedd cais gwreiddiol Llanbrynmair yn cynnwys safle'r fferm wynt a'r fynedfa arfaethedig i AILs ar hyd ffordd fach Llanerfyl i Dalerddig. Yn ystod yr ymchwiliad cyhoeddus cyfun yn 2013/2014, gofynnodd Cyngor Sir Powys i RES ystyried trefniant mynediad amgen gyda chynllun Carnedd Wen ac, ym mis Chwefror 2014, cyflwynodd RES Wybodaeth Amgylcheddol Atodol (SEI) a ystyriodd y ddau lwybr i AILs.

Ar ôl i'r ymchwiliad gau, daeth yr Arolygydd i'r casgliad ym mharagraff 668 (tudalen 110) o'i adroddiad i'r Ysgrifennydd Gwladol dyddiedig 8 Rhagfyr 2014 ei fod o'r farn, ar y cyfan, y byddai manteision Fferm Wynt arfaethedig Llanbrynmair yn amlwg yn drech na'i heffeithiau andwyol. Aeth ymlaen i ddweud y byddai defnyddio ffordd Llanerfyl i Dalerddig i roi mynediad i AILs i Fferm Wynt Llanbrynmair yn achosi effeithiau amgylcheddol andwyol arwyddocaol. Daeth i'r casgliad hefyd y byddai'r dewis arall o rannu mynediad i AILs gyda chynllun Carnedd Wen yn well o lawer yn nhermau amgylcheddol. Gan hynny, argymhellodd (ym mharagraff 669 o'i adroddiad) y dylid gwrthod y cynnig i AILs gael mynediad i Fferm Wynt Llanbrynmair o Ddyffryn Nant yr Eira.

Ym mharagraff 675 o'i adroddiad, argymhellodd yr Arolygydd, pe bai'r Ysgrifennydd Gwladol yn penderfynu rhoi cydsyniad adran 36 a chaniatâd cynllunio tybiedig ar gyfer cynllun arfaethedig Carnedd Wen, yna y byddai'n argymell y dylid rhoi caniatâd adran 36 a chaniatâd cynllunio tybiedig ar gyfer y rhan honno o gynnig Llanbrynmair sy'n ymwneud â chodi'r tyrbinau gwynt a'r seilwaith perthynol, ond nid i'r graddau y mae'n ymwneud â chreu llwybr ar gyfer AILs ar hyd y ffordd fach o Lanerfyl i Dalerddig. Dangosir y rhan honno o'r cynnig yr argymhellodd yr Arolygydd y dylid rhoi caniatâd iddo ar y Lluniad amgaeedig 1A (Dalen 1) a oedd yn cyd-fynd ag SEI Chwefror 2014.

Er bod y cais am Fferm Wynt Carnedd Wen wedi'i dynnu'n ôl, nid yw hyn yn newid casgliad yr Arolygydd y byddai manteision Fferm Wynt arfaethedig Llanbrynmair yn amlwg yn drech na'i heffeithiau andwyol. At hynny, os yw'r Ysgrifennydd Gwladol yn cytuno ag argymhelliad yr Arolygydd y dylid rhoi caniatâd ar gyfer cynnig Llanbrynmair, ond yn amodol ar ofyniad na fydd AILs yn mynd i'r safle o'r ffordd rhwng Llanerfyl a Thalerddig, yna nid yw tynnu cais Carnedd Wen yn ôl yn newid y casgliad hwn. Gellid rhoi caniatâd ar gyfer y rhan honno o Fferm Wynt Llanbrynmair fel y dangosir ar y Lluniad amgaeedig 1A (Dalen 1), yn unol ag argymhelliad clir yr Arolygydd.

Yn bwysig ddigon, drwy roi caniatâd i Fferm Wynt Llanbrynmair fel hyn, byddai'r Ysgrifennydd Gwladol yn galluogi RES i gyfiawnhau ymgymryd â'r buddsoddiad pellach y mae ei angen i asesu a chyflwyno cais newydd am fynediad amgen i safle Llanbrynmair. Byddai caniatâd hefyd yn sicrhau bod y prosiect ynni adnewyddadwy sylweddol hwn yn dal yn gallu cyfrannu at dargedau Cymru a'r Deyrnas Unedig ar gyfer lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr, heb ragor o oedi diangen, sef pwynt y mae'r Arolygydd yn ei bwysleisio ym mharagraff 673 o'i adroddiad.

Ar ben hynny, byddai rhoi caniatâd fel y cynigiwyd gan yr Arolygydd yn cwblhau'r broses Adran 36 ar gyfer cynlluniau ffermydd gwynt y Canolbarth o'r diwedd, gan fod y cyfrifoldeb dros benderfynu ar gynigion ynni yn y dyfodol, gan gynnwys cais am fynediad amgen i safle Llanbrynmair, bellach wedi'i ddatganoli i'r Senedd. Mae'r broses hon eisoes wedi'i gohirio ers cryn amser ac nid yw rhagor o ohirio cyn dod i gasgliad yn fuddiol i neb.

Gan hynny, hoffwn annog yr Ysgrifennydd Gwladol naill ai i ganiatáu cais Fferm Wynt Llanbrynmair fel y'i cyflwynwyd neu fel arall caniatáu'r rhan honno o'r cynnig sy'n ymwneud â chodi'r tyrbinau gwynt a'r seilwaith perthynol, fel y'i hargymhellwyd gan yr Arolygydd ac fel y'i dangosir ar y Lluniad amgaeedig.

Os oes arnoch angen rhagor o fanylion, mae croeso ichi gysylltu â mi.

Yn gywir,



Chris Jackson
Uwch-reolwr Prosiectau Datblygu
E Chris.Jackson@res-group.com
T +44 2920 021 074
M +44 7500 058 463

Amg